Case Study – School name	Jasmine Shao Penglais	
School Address	Waun Fawr, Aberystwyth SY23 3AW	
University	Cambridge University	
Studying	Engineering	

Beth ddigwyddodd ar ôl i chi basio'ch arholiad Mathemateg Bellach?

Roeddwn yn falch iawn fy mod wedi pasio fy arholiad Mathemateg Bellach. Roedd pasio hwn yn golygu fy mod yn cwrdd ag amodau cynnig i gael cofrestru ar y cwrs dewis cyntaf. Roeddwn hefyd yn falch o'm gradd oherwydd fy mod wedi rhoi llawer o waith i astudio Mathemateg Bellach, a fu'n brofiad heriol.

Ydych chi'n meddwl bod astudio Mathemateg Bellach trwy FMSP Cymru wedi helpu i drosglwyddo i'r Brifysgol?

Mae wedi helpu'r trosglwyddo i Brifysgol yn sylweddol. Mae angen cefndir Mathemateg cryf ar y cwrs Peirianneg, a heb astudio Mathemateg Bellach yn yr ysgol, byddwn wedi cael trafferth fawr ar bynciau megis hyperbolics, matricsau a newidynnau cymhlyg ar ben gweddill cynnwys fy nghwrs.

A oes unrhyw ffyrdd y teimlwch fod Mathemateg Bellach wedi eich helpu?

Fe wnaeth Mathemateg Bellach fy helpu i fynd trwy'r agwedd Mathemateg fy nghwrs yn ystod y tymor cyntaf. Er bod y darlithoedd yn ymdrin â phynciau fel hyperbolics, graffiau a matricsau eto, cawsant sylw byr iawn. Felly, heb Fathemateg Bellach, byddwn wedi bod yn sownd ar y dulliau mathemategol sylfaenol sydd eu hangen i astudio Peirianneg.

A fyddech chi'n argymell astudio Mathemateg Bellach a pham?

Byddwn yn argymell yn arbennig y disgyblion sy'n dymuno mynd ymlaen i astudio pwnc STEM i astudio Mathemateg Bellach. Bydd y wybodaeth y byddwch chi'n ei ddysgu yn ystod Mathemateg Bellach mor werthfawr yn ystod eich cwrs yn y Brifysgol, oherwydd gallwch wedyn ganolbwyntio ar fodiwlau eraill y cwrs, sy'n cael eu hadeiladu ar y dulliau a ddysgir mewn Mathemateg Bellach, yn hytrach na cheisio eu meistroli tra byddwch chi yn y Brifysgol.